**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2023, dros Zoom**

Yn bresennol:

- Sioned Williams AS (Cadeirydd)
- Yr Athro Simon Hoffman (Ysgrifenyddiaeth)
- Yr Athro Geraldine Van Bueren CB (Siaradwr)
- Madeleine Stone, Big Brother Watch (Siaradwr)

Roedd pobl â diddordeb hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn agored i bobl a sefydliadau sydd â diddordeb. Gan fod y cyfarfod wedi cael ei gynnal dros Zoom, gyda nifer fawr o bobl yn dewis ymuno (30+), nid oedd modd cadw cofnod o'r holl bobl a oedd yn bresennol.

**Cofnodion**

**Materion sy'n codi:**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan roi gwybod i bawb a oedd yn bresennol fod llythyr wedi'i anfon gan y Cadeirydd ar ran y Grŵp Trawsbleidiol at y Prif Chwip a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn annog Llywodraeth Cymru i barhau â'i chynlluniau i symud yr agenda hawliau dynol yng Nghymru yn ei blaen drwy ymgorffori'r hawliau hynny, a hynny ar frys. Nododd y Cadeirydd fod ymateb wedi dod i law gan y Gweinidog (5 Medi 2023), yn nodi ei phryderon am ymdrechion Llywodraeth y DU i danseilio hawliau dynol yn y DU. Mae'r llythyr hefyd yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd ar drywydd gwaith yn y maes, gyda'r bwriad o weithredu'r argymhellion ar ymgorffori sydd i'w gweld yn yr adroddiad 'Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru', gan gynnwys drwy sefydlu Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol.

**Diweddariad ar y broses o ymgorffori:**

Roedd Charles Whitmore wedi anfon ei ymddiheuriadau i'r Grŵp ar gyfer y cyfarfod. Yn ei absenoldeb, rhoddodd yr Athro Hoffman grynodeb byr o waith y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol, gan nodi bod ei ffocws cychwynnol ar ddulliau o ymgorffori a'r hawliau dynol rhyngwladol y byddai modd eu hymgorffori o fewn cymhwysedd datganoledig. Dywedodd yr Athro Hoffman fod y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn symud ei waith yn ei flaen drwy ddau weithgor sy'n archwilio'r materion a grybwyllir uchod, sef materion sy'n ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn Erbyn Menywod. Dewiswyd y cytuniadau hyn gan y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud ymrwymiad i archwilio'r broses o'u hymgorffori. Dywedodd yr Athro Hoffman ei bod bellach yn annhebygol iawn y bydd Bil Hawliau Dynol drafft i Gymru yn cael ei gyflwyno yn ystod y Senedd hon. Fodd bynnag, nododd mai'r bwriad yw y bydd y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn gwneud argymhellion i'w mabwysiadu mewn Papur Gwyrdd, fel bod cyfle i'r pleidiau eu cefnogi yn eu maniffestos cyn etholiad nesaf y Senedd.

**Cyflwyno system adnabod wynebau yng Nghymru – Madeleine Stone, Uwch Swyddog Eirioli, Big Brother Watch**

Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol gyflwyniad gan Madeleine Stone o Big Brother Watch ar y goblygiadau hawliau dynol sy'n deillio o ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw, ac ar y defnydd o'r dechnoleg hon yng Nghymru, lle mae Heddlu De Cymru wedi cymryd yr awenau.

Dyma brif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Mae defnydd eang o dechnoleg adnabod wynebau byw mewn mannau cyhoeddus, ac mae'r dechnoleg yn cael ei ddefnyddio fwyfwy gan y sector preifat mewn siopau, mewn mannau y tu allan i glybiau nos, ac ati.
- Mae rhagfarn wahaniaethol gynhenid ynghlwm wrth y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw, gan fod pobl o liw yn fwy tebygol o fod yn destun sgan gan ddefnyddio technoleg adnabod wynebau byw.
- Mae defnyddio technoleg adnabod wynebau byw yn gwrthdroi'r rhagdybiaeth bod amheuaeth yn mynd o flaen gwyliadwriaeth, yn yr ystyr bod gwyliadwriaeth yn targedu'r boblogaeth gyffredinol, a hynny heb amheuaeth bod trosedd wedi'i chyflawni.
- Mae'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn ymyrryd â'r syniad o blismona drwy gydsyniad, gan nad oes cydsyniad ystyrlon ar gyfer technoleg adnabod wynebau byw.
- Mae'r defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw yn golygu cyfeirio at 'restrau gwylio' (sef casgliadau o ddelweddau). Fodd bynnag, nid yw'r broses o baratoi rhestrau gwylio yn destun unrhyw drefniadau rheoleiddio, sy'n golygu y gallai unrhyw un gael ei roi ar restr wylio (pobl dan amheuaeth, tystion, dioddefwyr, cymdeithion y bobl hyn, neu unrhyw grŵp arall y mae'r heddlu'n eu dewis wrth baratoi rhestr wylio).
- Mae technoleg adnabod wynebau byw yn gysylltiedig â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol: Erthygl 8 (bywyd preifat); Erthygl 10 (rhyddid mynegiant); ac Erthygl 14 (peidio â gwahaniaethu). Mae ei defnydd felly'n arwain at bryderon bod yr hawliau hyn yn cael eu torri.

Nododd y siaradwr fod Sarah Murphy AS wedi cyflwyno cynnig yn y Senedd yn codi pryderon am y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau byw. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ychwanegu ei henw i'r cynnig.

Mae'r Grŵp Trawsbleidiol o'r farn bod technoleg adnabod wynebau byw yn fater hawliau dynol, a bydd yn monitro datblygiadau yn y maes hwn drwy gyfraniadau gan gyfranogwyr a Big Brother Watch.

**Mynd i'r afael â gwahaniaethu economaidd-gymdeithasol drwy hawliau dynol yng Nghymru – Yr Athro Geraldine Van Bueren CB**

Cafodd y Grŵp Trawsbleidiol gyflwyniad gan yr Athro Geraldine Van Bueren CB ynghylch sut y gallai Cymru fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol gan ddefnyddio fframweithiau cyfreithiol presennol.

Dyma brif bwyntiau'r cyflwyniad:

- Mae gwahaniaethu ar sail dosbarth cymdeithasol yn fater croestoriadol sy'n effeithio ar gymunedau amrywiol.
- Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol yn aml yn dioddef gwahaniaethu ac yn cael eu dal yn ôl mewn meysydd fel cyflogaeth.
- O ran mecanweithiau ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol, mae cynlluniau symudedd cymdeithasol yn aml yn cael eu cynllunio heb fewnbwn gan bobl dosbarth gweithiol.
- Mae cyfeirio at faterion dosbarth gweithiol yn aml yn cael ei bortreadu fel rhywbeth negyddol, sy'n gysylltiedig â thrafodaethau'r dde eithaf neu'r chwith eithaf.
- Ni ddylai'r naill na'r llall fod yn berthnasol, gan fod gwahaniaethu ar sail dosbarth cymdeithasol ac anfantais economaidd-gymdeithasol yn fater hawliau dynol.
- Mae'n anodd deall pam nad yw dosbarth cymdeithasol yn fater hawliau mwy amlwg yng nghyd-destun Deddf Hawliau Dynol 1998. Dylai'r hawliau sy'n cael eu diogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fod ar gael i bobl heb y bygythiad o wahaniaethu ar sail tarddiad cymdeithasol, eiddo, genedigaeth neu statws arall.
- Un posibilrwydd o ran dylanwadu ar y sefyllfa hon yw canolbwyntio ar addysg, gan dargedu prifysgolion Cymru yn benodol.
- Mae Cynghrair yr Academyddion Dosbarth Gweithiol wedi mabwysiadu Cod y Prifysgolion ar Gyfle Cyfartal i Fyfyrwyr ac Academyddion Dosbarth Gweithiol.
- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n barod i ddrafftio llythyr i'w anfon at Is-gangellorion prifysgolion Cymru, yn eu hannog i fabwysiadu'r cod.

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol, drwy'r Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth, yn cysylltu â'r Athro Van Bueren er mwyn bwrw ymlaen â'r mater hwn gyda phrifysgolion Cymru.